

> "Mae Drama yn bwnc gwych i bigo oherwydd ei fod yn helpu i godi hyder ac i ddysgu llawer mwy am y pwnc nag yn ystod cyfnod TGAU. Mae llawer o gyfleoedd i wneud gwaith ymarferol a hefyd astudio Drama a gwneud amrywiaeth o waith ymarferol ac ysgrifenedig! "
>
> Catrin Parry




# Drama

## Pam astudio Drama?

Ydych chi'n hoff o berfformio? Oes gennych chi ddiddordeb yn y byd creadigol? Actio, Canu, Cyfarwyddo, Coluro? Ydych chi'n awyddus i lwyfannu neu ddylunio cynyrchiadau? Mae Drama yn rhoi cyfleoedd i greu, datblygu a pherfformio gan ddatblygu sgiliau gwerthuso, cydweithio a chyfathrebu hollbwysig. Cwrs bywiog sy'n cynnwys cyfleoedd i gydweithio a llunio gwaith ymarferol.

## Gofynion y cwrs

Disgwylir i chi fod wedi ennill gradd C neu uwch mewn TGAU Drama ond os nad ydych wedi astudio'r pwnc ar lefel TGAU yna dewch am sgwrs at y Pennaeth Adran.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### Unedau UG Uned 1:

Asesiad di-arholiad wedi'i asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol (24% o'r cymhwyster) Gweithdy Theatr: Byddwch yn cael eich asesu naill ai'n actio neu'n dylunio. Uned 2: Arholiad ysgrifenedig: 1½ awr (16% o'r cymhwyster) Testun mewn Theatr: Cyfres o gwestiynau yn seiliedig ar un testun perfformiad, sef 'Dros Bont Brooklyn', Arthur Miller.

### Unedau Lefel A Uned 3:

Asesiad di-arholiad: wedi'i asesu'n allanol gan arholwr sy'n ymweld â'r ysgol (36% o'r cymhwyster) Byddwch yn cael eich asesu naill ai'n actio neu'n dylunio. Uned 4: Arholiad ysgrifenedig: 2½ awr (24% o'r cymhwyster) Testun mewn Perfformiad: Dau gwestiwn, yn seiliedig ar y ddau destun canlynol: Sweeney Todd, Stephen Sondheim ac Un Nos Ola Leuad o waith Caradog Prichard, addasiad Theatr Bara Caws.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Byddwch yn magu sgiliau creadigrwydd ac arloesedd yn ogystal â dyfeisgarwch, sgiliau cyfathrebu a hunanhyder. Drwy astudio Drama ceir cyfle i fynd ymlaen i swyddi ym myd Theatr a Theledu - Actor, Sgriptiwr, Technegydd Golau/Sain, Dylunydd Gwisgoedd, Cyfarwyddwr. Gall hefyd arwain at swyddi ym myd Addysg, Cwnsela neu Newyddiaduraeth.